

## Arfordir Kenya

Mae 3 miliwn o bobl yn byw mewn ardaloedd o goedwig ar arfordir Kenya. Mae gan y coedwigoedd hyn amrywiaeth mawr o blanhigion ac anifeiliaid. Mae'r sefydliad Birdlife International yn dweud bod yr ardal o bwys byd-eang ar gyfer adar. Mae'r coedwigoedd yn bwysig iawn i bobl leol ar gyfer bwyd a phethau eraill sydd eu hangen arnynt i oroesi ond hefyd, oherwydd eu credoau traddodiadol.



### Y problemau sy'n wynebu cymunedau:

- Mae Kenya yn wlad incwm isel gyda phoblogaeth sy'n tyfu'n gyflym.
- Mae Kenya wedi dioddef o gyfnodau hir o sychder yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i'n planed yn cynhesu.
- Mae'r goedwig yn cael ei thorri i lawr.

### Beth mae'r prosiect yn ei wneud?

Cefnogi cymunedau lleol, a'u helpu nhw i gael llais cryfach mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud am y coedwigoedd.

Ceisio dylanwadu ar bolisi'r Llywodraeth ac ar beth sy'n digwydd er mwyn gwarchod y coedwigoedd.

Ceisio dylanwadu ar ddatblygiadau mawr i wneud yn siŵr nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd.

Gwneud yn siŵr nad yw ffermio a physgota yn niweidio'r amgylchedd, a chefnogi ffermio sydd ddim yn difrodi'r goedwig.

Annog pysgota sydd ddim yn niweidio'r amgylchedd ond sy'n rhoi ffynhonnell arall o fwyd i bobl. Annog pethau fel cadw gwenyn.

Mae Banc Cynilo'r Pentref wedi cael ei sefydlu, sy'n benthg symiau bach o arian i bobl sefydlu busnesau.

Mae'r Prosiect Pentref Ynni Glân yn helpu i ostwng nifer y coed sy'n cael eu torri drwy roi stofiau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon a systemau goleuo solar i gymunedau. Mae'r stofiau wedi'u gwneud o ddeunyddiau sy'n hawdd eu canfod ac o ffynonellau wedi'u cyrchu'n lleol fel clai, tywod, dŵr ac ychydig o sment.

## Pa mor llwyddiannus ydy'r Prosiect hyd yn hyn:

### Y prosiect Ynni Glân

Mae'r stofiau newydd yn defnyddio llai o bren ac yn llai myglyd, felly-

- Mae llai o lygredd aer yn y cartrefi felly mae pobl yn iachach
- Mae plant (merched yn bennaf) yn treulio llai o amser yn casglu coed tân
- Mae llai o goed yn cael eu torri lawr

Mae'r goleuadau solar yn golygu

- Bod llai o lygredd aer yn y cartrefi, felly mae pobl yn iachach
- Nad oes rhaid i bobl brynu tanwydd ar gyfer lampau
- Bod plant yn gallu astudio'n hirach gyda'r nos ac felly, yn gwneud yn well yn yr ysgol
- Bod llai o danwydd ffosil yn cael ei losgi

Mae rheolaeth y goedwig wedi gwella. Yng nghoedwig Kaya, mae pobl wedi gallu plannu coed. Mewn gwahanol fannau, mae'r llywodraeth yn gwarchod y goedwig yn well.

Mae cyflwr afonydd wedi gwella drwy annog ffermwyr i dyfu câns siwgr mewn ffordd sy'n defnyddio llai o ddŵr.

Mae cymdeithas tyfwyr coed wedi cael ei sefydlu yn Kwale. Mae mwy na 200 o aelodau

yn rhan o'r gymdeithas, sy'n edrych ar ôl 3,000 hecтар o goedwig. Mae'r prosiect wedi helpu'r aelodau i sefydlu cydweithfa i ddod o hyd i farchnad ar gyfer pethau y gallant eu cynhyrchu yn y goedwig - e.e. adeiladu polion, pren a mêl.

Mae'r prosiect wedi cefnogi 145 o ffermwyr i ddechrau ffermio sy'n gweddu i'r hinsawdd yn siroedd lamu ac Afon Tana. Mae'r ffermwyr hyn yn dweud yn barod eu bod nhw wedi cynhyrchu mwy o gnydau. Yn ardal llyn Kenyatta, mae 60 o ffermwyr wedi cael cefnogaeth i ddechrau plannu coed a datblygu cadwraeth pridd/dŵr ac yn Kwale, mae'r prosiect yn treialu pypmiau dŵr solar.

## Pobl

Mae Hilary Masuma Kalama yn byw ym mhentref Kauma, ac roedd yn arfer gweithio fel pysgotwr. Mae ganddo blant ac wyrion/wyresau.



Mae'n un o hynafiaid llwyth y Kauma yng nghoedwig Kaya. Daw ei wybodaeth o'r goedwig gan ei dad a'i daid, ac mae'n dyddio'n ôl i'r 16eg ganrif, pan ymsefydlodd eu llwyth cyntaf yng nghoedwigoedd Kaya. Nawr, mae'n trosglwyddo'r hyn maen ei wybod i'w wŷyr.



Mae'r fideo 2.5 munud hwn yn dangos Hilary Masuma Kalama a'i wŷyr-

<https://sizeofwales.org.uk/projects/forests-coastal-kenya/#video>

## Meddai Mama Zainab, sydd â lamp solar:

*"Rwy'n hapus dros ben ac yn ddiolchgar iawn am y lampau solar sydd wedi cael eu darparu gan WWF. Mae hyn wedi fy helpu i gynilo 40 o syltau Kenya bob dydd.*

*Roeddwn i'n arfer eu gwario yn prynu paraffin ar gyfer fy lamp tun ac yn gwefru fy ffôn symudol. Erbyn hyn, mae fy mhlant yn gallu astudio am dair awr gyda'r nos ...*

*Cyn hynny, dim ond am awr y byddent yn astudio ac wedyn, byddai eu llygaid yn troi'n goch ac yn cosi oherwydd mwg o'r lamp tun.*



*"Mae hyn fel gwyrth go iawn i ni, wnes i erioed ddychmygu'r math yma o drawsnewid ... rydym mor ddiolchgar i WWF ... hoffem ofyn i eraill ymuno a chefnogi'r achos hwn, fel y gellir trawsnewid llawer mwy o aelwydydd. "*

## Meddai Emily Jacob, disgybl yn nosbarth 7:

"Nawr, rydw i'n gallu darllen a chwblhau fy ngwaith cartref. Cyn cael y lampau solar a'r stofiau sy'n arbed ynni, doeddwn i byth yn gorffen fy astudiaethau. Ar ôl ysgol, byddwn i'n mynd i goedwig gyfagos i gasglu coed tân a phan oeddwn i'n gallu astudio, roedd y mwg o'r lamp tun cerosin yn gwneud i mi dagu - allwn i brin ganolbwyntio.



"Diolch i'r lampau, mi wnes i wella o 321 marc i 379 mewn blwyddyn yn unig! Rwy'n siŵr o basio fy mhrif arholiad y flwyddyn nesaf ac ymuno ag ysgol uwchradd dda. Hoffwn i astudio cadwraeth coedwigoedd yn y brifysgol. "

Yn yr ardal hon, mae Maint Cymru yn gweithio gyda'r elusen WWF (World Wildlife Fund).